DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG

CYNGOR SIR DDINBYCH

PARCIAU GWLEDIG LOGGERHEADS A MOEL FAMAU A LLANGOLLEN

GORCHYMYN (LLE PARCIO ODDI AR Y STRYD)

2024

Ar hyn o bryd, nid yw meysydd parcio ym Mharc Gwledig Loggerhead a Bwlch Pen Barras (Moel Famau), a Llantysilio Green, Llangollen) wedi eu rheoleiddio ar wahân i godi ffi am ddefnyddio'r maes parcio pan maent ar agor. Yn aml iawn mae hyn yn achosi peryglon a/neu rwystrau ar safle, ac mae tystiolaeth o gamddefnyddio yn y meysydd parcio hyn.

Yn benodol mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych wedi mynegi pryderon ynghylch parcio rhwystrol ym meysydd parcio Parc Gwledig Loggerheads a Bwlch Pen Barras. Mae'r un problemau yn gyffredin ym maes parcio Llantysilio Green.

Mae sylwadau'r Swyddog wedi dilysu'r broblem.

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â meysydd parcio yn ei gwneud yn anymarferol i'r Cyngor i osod gorfodaeth ar yr ardaloedd hyn a lleihau gwariant cynnal a chadw i'r lleiafswm bosib. Mae'r cynnig hwn i ddod â'r meysydd parcio hyn dan system rheoli Gorfodaeth Parcio Sifil.

Mae maes parcio Wenffrwd yn faes parcio newydd ac mae'n amlwg o sylwadau'r swyddog o'r defnydd hyd yma, er ei fod yn faes parcio di-dâl, mae angen rheoli a rheoleiddio yn well y modd mae cerbydau yn parcio o fewn y maes parcio hwn.

Mae'n ymddangos i'r Cyngor Sir fel Awdurdod gwneud Gorchymyn, ei bod yn angenrheidiol a manteisiol i wneud y Gorchymyn hwn er budd darparu rheolaethau priodol ar gyfer y meysydd parcio yn y Gorchymyn ac i allu gorfodi yn y meysydd yn ôl yr angen.